

## Canllawiau ar ddatganiad ar gyfer cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol ('GOC')

Mae'r canllawiau hyn ar gyfer yr ymgeiswyr a'r cofrestreion sy'n fyfyrwyr, wedi cymhwyso'n llawn ac yn gorff corfforedig, sy'n gwneud cais i ymuno â chofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol neu i adfer neu gadw eu cofrestriad gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol.

Medi 2024

## Cynnwys

Ar gyfer pwy mae'r ddogfen?.....	3
Adran 1: Cyflwyniad .....	3
Cofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol .....	3
Adran 2: I bwy mae hyn yn berthnasol .....	4
Ymgeiswyr sy'n fyfyrwyr a chofrestreion .....	4
Ymgeiswyr a chofrestrwyr sydd wedi cymhwyso'n llawn .....	4
Ymgeiswyr a chofrestreion corff corfforedig .....	5
Adran 3: Yr hyn y dylech ei ddatgan .....	6
Datganiad o addasrwydd i ymarfer neu addasrwydd i hyfforddi.....	6
Datganiad iechyd .....	7
Rhagor o wybodaeth am ddatganiadau iechyd.....	9
Datganiadau Troseddol, Rheoleiddiol a Disgyblu .....	10
Rhagor o wybodaeth am faterion troseddol .....	14
Adran 4: Y broses ar gyfer gwneud penderfyniadau .....	14
Adran 5: Methu â gwneud datganiad.....	16
Adran 6: Datganiadau a wnaed y tu allan i'r cyfnod cadw .....	17
Adran 7: Ymarfer tra rydych heb gofrestru .....	17
Adran 8: Sut i apelio yn erbyn penderfyniad.....	17
Adran 9: Safonau i fyfyrwyr, cofrestryddion sydd wedi cymhwyso'n llawn, a busnesau .....	18
Adran 10: Rhagor o wybodaeth.....	18
Atodiad 1 Siart Llif yn dangos y broses o wneud penderfyniadau a chanlyniadau posibl ar gyfer ymgeiswyr sydd eisiau cofrestru ac ymgeiswyr sydd eisiau adfer.....	19
Atodiad 2 Siart Llif yn dangos y broses gwneud penderfyniadau a chanlyniadau posibl yn ystod y cyfnod cadw .....	20

## Ar gyfer pwy mae'r ddogfen?

Bwriad y ddogfen hon yw rhoi arweiniad i'r grwpiau canlynol:

Y rheini sy'n gwneud cais i'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) i gofrestru neu adfer (ond nid i adfer ar ôl dileu). Mae hyn yn cynnwys myfyrwyr-optometryddion neu fyfyrwyr-optegwyr cyflenwi, optometryddion neu optegwyr cyflenwi sydd wedi cymhwyso'n llawn, neu gyrff corfforedig sy'n gwneud cais ar gyfer cofrestru neu adfer ('ymgeisydd'); a'r

- Rhai sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol ar hyn o bryd fel myfyrwyr-optometryddion neu fyfyrwyr-optegwyr cyflenwi, optometryddion neu optegwyr cyflenwi sydd wedi cymhwyso'n llawn neu gyrff corfforedig sy'n gwneud cais i gadw cofrestriad ('cofrestrai').

Bydd y ddogfen hefyd yn cael ei defnyddio gan y Cofrestrydd, staff yn nhîm Cofrestru'r Cyngor Optegol Cyffredinol, aelodau o Gyngor a Phwyllgorau'r Cyngor Optegol Cyffredinol (gan gynnwys y Pwyllgor Apeliadau Cofrestru), ac unrhyw berson arall sy'n dymuno deall yr egwyddorion a'r prosesau ar gyfer ystyried ceisiadau gyda datganiadau.

## Adran 1: Cyflwyniad

Ni yw'r rheoleiddiwr ar gyfer y proffesiynau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd, mae tua 33,000 o optometryddion, optegwyr cyflenwi, myfyrwyr-optegwyr a busnesau optegol wedi'u cofrestru â ni.

Mae gan y Cyngor Optegol Cyffredinol bedair prif swyddogaeth:

- Gosod safonau ar gyfer perfformiad ac ymddygiad ein cofrestreion.
- Cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru.
- Cadw cofrestr o unigolion sy'n addas i ymarfer neu hyfforddi fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi, a chyrff corfforedig sy'n addas i redeg busnes fel optometryddion neu optegwyr cyflenwi.
- Ymchwilio a gweithredu os bydd amhariad ar addasrwydd cofrestrai i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes.

Mae gan y Cyngor Optegol Cyffredinol gyfrifoldeb i sicrhau mai dim ond y rhai sydd ar ein cofrestr sy'n gallu defnyddio 'teitl gwarchoddedig', fel optometrydd neu optegydd cyflenwi. Mae unrhyw un sy'n defnyddio teitl gwarchoddedig ac nad yw wedi'i gofrestru gyda ni yn torri'r gyfraith a gellid ei erlyn.

### Cofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol

Mae cofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol ar gael ar ein gwefan yn [www.optical.org](http://www.optical.org). Gall unrhyw un ei chwilio i wneud yn siŵr bod ei weithiwr optegol proffesiynol wedi'i gofrestru. Mae'r gofrestr yn cynnwys gwahanol ddarnau o wybodaeth am unigolion a busnesau sydd wedi cofrestru gyda ni, gan gynnwys:

- Eu rhif cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol;

- Eu math o gofrestriad (boed yn optometrydd, optegydd cyflenwi, myfyriwr neu gorff corfforedig);
- Y cymwysterau y maent wedi'u rhestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol (gan gynnwys eu prif gymhwyster sy'n caniatáu iddynt gael eu cynnwys ar y gofrestr, lle bo hynny'n berthnasol); ac
- A ydynt yn destun unrhyw ganlyniadau addasrwydd i ymarfer megis atal dros dro neu gofrestriad amodol.

## Adran 2: I bwy mae hyn yn berthnasol

### Ymgeiswyr sy'n fyfyrwr a chofrestreion

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymgymryd â hyfforddiant fel optometrydd neu optegydd cyflenwi mewn sefydliad hyfforddi yn y DU fod wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol drwy gydol y cwrs astudio.

Er mwyn i'r Cyngor Optegol Cyffredinol eich cofrestru, eich adfer neu eich cadw fel myfyriwr, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais berthnasol. Fel rhan o'r cais i gofrestru neu adfer, bydd gofyn i chi roi gwybodaeth i ni, gan gynnwys:

- Enw'r sefydliad addysgol y byddwch yn astudio ynddo, ac enw'r cwrs neu'r hyfforddiant y byddwch yn ymgymryd ag ef;
- Ffotograff ohonoch, wedi'i ardystio gan rywun sydd wedi eich adnabod ers o leiaf ddwy flynedd (ac nad yw'n berthynas); a
- **Datganiad** gennych chi eich bod yn berson addas i ymgymryd â hyfforddiant, a gwybodaeth am unrhyw gyflyrau iechyd, ac unrhyw euogfarnau troseddol, rhybuddiadau a phenderfyniadau rheoleiddiol ac unrhyw ymchwiliadau troseddol, rheoleiddiol neu ddisgyblu cyfredol, y bydd angen i ni eu hystyried cyn caniatáu eich cofrestriad.

Byddwn yn gofyn am gadarnhad yn uniongyrchol gan eich sefydliad addysgol eich bod (neu y byddwch) yn ymgymryd â hyfforddiant yn y sefydliad hwnnw.

Manylion llawn ar ein gwefan [Cofrestru fel myfyriwr | CyngorOptegolCyffredinol](#)

Bydd yr holl wybodaeth a ofynnwn gennych chi yn ein helpu i sicrhau:

- Mai chi ydych chi;
- Rydych yn hyfforddi ar gwrs ac mewn sefydliad a gymeradwywyd gan y Cyngor Optegol Cyffredinol;
- Rydych yn bodloni ein safonau addasrwydd i ymgymryd â hyfforddiant; a
- Mae gennym eich manylion cyswllt.

### Ymgeiswyr a chofrestrwyr sydd wedi cymhwyso'n llawn

Rhaid i unrhyw un sy'n dymuno ymarfer fel optometrydd neu optegydd cyflenwi yn y DU gofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol.

Er mwyn i'r Cyngor Optegol Cyffredinol eich cofrestru, eich adfer neu eich cadw, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais berthnasol. Rhaid i chi wneud hyn hyd yn oed os ydych wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol fel myfyriwr ar hyn o bryd. Fel rhan o'r cais i gofrestru neu adfer, bydd gofyn i chi roi gwybodaeth i ni, gan gynnwys:

- Enwau a chyfeiriadau lle rydych yn ymarfer, yn ogystal â chyfeiriad cyswllt;
- Ffotograff ohonoch, wedi'i ardystio gan rywun sydd wedi eich adnabod ers o leiaf ddwy flynedd (ac nad yw'n berthynas);
- Gwybodaeth am eich polisi yswiriant; a
- Datganiad gennych chi eich bod yn berson addas i ymarfer, a gwybodaeth am unrhyw gyflyrau iechyd, ac unrhyw euogfarnau troseddol, rhybuddiadau a phenderfyniadau rheoleiddiol ac unrhyw ymchwiliadau troseddol neu reoleiddiol cyfredol, y bydd angen i ni eu hystyried cyn caniatáu eich cofrestrriad.

Byddwn yn ceisio cadarnhad yn uniongyrchol gan eich corff arholi eich bod wedi bodloni eu gofynion ac yn gymwys i ymarfer.

Mae'r manylion llawn ar ein gwefan [Cofrestru fel unigolyn cwbl gymwys | CyngorOptegolCyffredinol](#)

Bydd yr holl wybodaeth a ofynnwn gennych chi yn ein helpu i sicrhau:

- Mai chi ydych chi;
- Mae gennych gymhwyster gan gorff arholi sydd wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Optegol Cyffredinol;
- Rydych yn bodloni ein safonau addasrwydd i ymarfer; ac
- Mae gennym eich manylion cyswllt.

### Ymgeiswyr a chofrestreion corff corfforedig

Rhaid i unrhyw gorff corfforedig sy'n dymuno cynnal busnes fel optometrydd neu optegydd cyflenwi yn y DU, a defnyddio teitl gwarchodedig yn eu busnes neu enw masnachu, fod wedi cofrestru â'r Cyngor Optegol Cyffredinol. Er mwyn i'r Cyngor Optegol Cyffredinol eich cofrestru, eich adfer neu eich cadw, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais berthnasol.

Ewch i'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth am y [gofynion ar gyfer cofrestru busnes. Cofrestru fel busnes | CyngorOptegolCyffredinol](#)

Fel rhan o'r cais hwn, bydd gofyn i chi roi gwybodaeth i ni, gan gynnwys:

- Enwau a chyfeiriadau lle rydych chi'n ymarfer, yn ogystal â chyfeiriad cyswllt a chyfeiriad cofrestredig eich busnes (lle bo hynny'n briodol).
- Manylion o ran sut mae eich busnes yn bodloni un o'r gofynion ar gyfer cofrestru fel corff corfforedig: er enghraifft, enwau holl gyfarwyddwyr eich

cwmni, a'u rhifau cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol lle bo hynny'n briodol; a

- Datganiad gennych chi bod y cwmni'n addas i gynnal busnes, a gwybodaeth am unrhyw ymchwiliadau a chanlyniadau troseddol a rheoleiddiol sy'n ymwneud â'r cwmni neu unrhyw un o'i gyfarwyddwyr, y bydd angen i ni ei hystyried cyn caniatáu eich cofrestriad.

Ni fydd yn ofynnol i ymgeiswyr cyrff corfforedig roi datganiad iechyd i ni mewn perthynas â'u cyfarwyddwyr, ond bydd yn ofynnol i unrhyw gyfarwyddwr sy'n optometrydd cofrestredig neu'n optegydd cyflenwi ddarparu datganiad o'r fath adeg cofrestru.

Bydd yr holl wybodaeth a ofynnwn gennych chi yn ein helpu i sicrhau:

- Mai chi ydych chi;
- Eich bod yn bodloni'r gofynion ar gyfer cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol fel corff corfforedig;
- Rydych yn bodloni ein safonau addaswydd i gynnal busnes; ac
- Mae gennym eich manylion cyswllt.

## Adran 3: Yr hyn y dylech ei ddatgan

### Datganiad o addaswydd i ymarfer neu addaswydd i hyfforddi

Mae Adran 8 Deddf Optegwyr 1989 yn datgan "bydd gan berson hawl i gael ei enw ar y gofrestr briodol os yw'n bodloni'r Cyngor ei fod...yn unigolyn addas i ymarfer fel optometrydd neu optegydd cyflenwi".

Gallwch wneud datganiad ar ein gwefan ar [Gwneud datganiad | CyngorOptegolCyffredinol](#)

Mae Rhan 2 o Reolau Cyngor Optegol Cyffredinol (Cofrestru) 2005 yn datgan y bydd ymgeiswyr am gofrestriad yn gwneud datganiad ynghylch ymchwiliadau neu ganlyniadau rheoleiddiol a/neu droseddol, ac mewn perthynas â'u hiechyd corfforol neu feddyliol.

Eich cyfrifoldeb chi, fel yr ymgeisydd neu'r cofrestrai, yw rhoi unrhyw wybodaeth i ni am y meysydd hyn. Os na fyddwch yn gwneud hynny, a'i fod yn dod i'n sylw yn ddiweddarach, gall hyn olygu y byddwn yn cymryd camau mewn perthynas â'ch cofrestriad.

Beth ddylech chi ei ddatgan:

- Mathau o ddatganiadau
  - Iechyd
  - Troseddol
  - Ymchwiliad

## Datganiad Iechyd

Mae'n ofynnol i bob myfyriwr ac ymgeisydd sydd wedi cymhwyso'n llawn ddatgan manylion unrhyw iechyd corfforol neu feddyliol y byddai unigolyn rhesymol yn credu y gallai amharu ar ei addasrwydd i ymarfer.

Nid yw'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn gwneud penderfyniadau o ran a yw unigolion yn 'iach' neu mewn 'iechyd da', ac nid ydym chwaith yn gwneud penderfyniadau ynghylch statws anabledd unigolyn. Mae anableddau a chyflyrau iechyd yn effeithio ar wahanol bobl mewn gwahanol ffyrdd, ac nid ydym yn cadw rhestr o gyflyrau neu anableddau a fyddai, yn ein barn ni, yn angenrheidiol i rywun eu datgan.

Mae gan y Cyngor Optegol Cyffredinol hefyd gyfrifoldeb i sicrhau ei fod yn cydymffurfio ag adrannau perthnasol Deddf Cydraddoldeb 2010 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a'r ddeddfwriaeth gwrth-wahaniaethol gyfatebol yng Ngogledd Iwerddon. Rhaid i'r Cyngor Optegol Cyffredinol gydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth hon, gan gynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (PSED) yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 (NIA 1998). Mae'r Ddyletswydd yn cynnwys yr holl nodweddion gwarchoddedig: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd a chred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Bwriad y Ddyletswydd yw sicrhau bod rhaid i sefydliadau, wrth arfer eu swyddogaethau, roi sylw dyledus i dri phrif nod:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb neu oddi tani.
- Datblygu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu; a
- Meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rheini nad ydynt yn ei rhannu.

Bwriad adran 75 o Ddeddf Gogledd Iwerddon 1998 yw sicrhau bod sefydliadau'n rhoi sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal:

- Rhwng pobl â chredoau crefyddol gwahanol, barn wleidyddol, grŵp hil, oedran, statws priodasol, neu gyfeiriadedd rhywiol.
- Rhwng dynion a menywod yn gyffredinol.
- Rhwng pobl ag anabledd a phobl heb anabledd.
- Rhwng pobl sydd â dibynyddion a phobl heb ddibynyddion.

Mae 'sylw dyledus' yn golygu meddwl yn ymwybodol am nodau'r Deddfau uchod fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Mae hyn yn golygu bod rhaid i ystyriaeth o faterion cydraddoldeb ddylanwadu ar y penderfyniadau y mae sefydliadau yn eu gwneud – fel sut maent yn gweithredu fel cyflogwyr; sut maent yn datblygu, yn gwerthuso ac yn adolygu polisi; sut maent yn dylunio, yn darparu ac yn gwerthuso gwasanaethau, a sut maent yn comisiynu ac yn caffael gan eraill.

O ran ystyried datganiad a wnaed yn ymwneud ag iechyd fel rhan o gais, nid oes felly unrhyw ragdybiaeth y byddai person ag anabledd neu rywun sydd â chyflwr iechyd corfforol neu feddyliol hirdymor yn peri risg i'r cyhoedd wrth weithio fel optometrydd neu optegydd cyflenwi.

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn gofyn i chi wneud datganiad am eich iechyd dim ond os gall effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer ar hyn o bryd. Gellir gwneud datganiadau o ran iechyd mewn perthynas ag unrhyw fath o gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol, boed hynny yn y tymor byr neu'r tymor hir, boed yn cael ei ystyried yn anabledd ai peidio, a beth bynnag fo'i achos.

Nid yw ein pryder yn ymwneud â'r cyflwr ei hun ond yr effaith y gallai ei chael ar eich gallu i ymgymryd â hyfforddiant neu ymarfer optegol, er enghraifft os nad ydych yn gallu ymarfer yn ddiogel hyd yn oed gydag addasiadau i offer neu newidiadau i'ch patrymau gweithio. Os byddwch yn datgan cyflwr iechyd i ni, byddwn yn ceisio asesu'r graddau y mae gennych fewnwelediad a dealltwriaeth o'ch iechyd a sut y gallai eich cyflwr effeithio ar eich gallu i ymarfer yn ddiogel. Mae mewnwelediad a dealltwriaeth at ein dibenion ni yn golygu eich bod wedi ystyried sut y gallai eich cyflwr iechyd gyfyngu ar eich gallu i ymgymryd â rhai agweddau ar ymarfer, ac wedi cymryd camau priodol i sicrhau nad ydych yn rhoi cleifion, y cyhoedd neu chi eich hun mewn perygl.

Wrth wneud datganiad am eich iechyd i ni, dylech roi gwybodaeth sy'n berthnasol i'r datganiad rydych chi'n ei wneud. Rydych yn cael eich annog i roi cymaint o wybodaeth ag sy'n hanfodol yn eich barn chi, er mwyn i ni allu asesu a allai eich cyflwr iechyd effeithio ar eich gallu i ymarfer. Gofynnwn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol o leiaf:

- Natur y cyflwr.
- Dyddiad y diagnosis.
- Manylion unrhyw driniaeth sydd ei hangen, gan gynnwys:
  - Meddyginiaethau.
  - Cynlluniau triniaeth.
  - Addasiadau yn y gweithle neu sefydliad addysg.
  - Cadarnhad a ydych chi'n absennol o'r gwaith oherwydd salwch (os felly, am faint o amser).
  - Pryd rydych chi i fod i ddychwelyd.
  - Pa gynllun dychwelyd, os o gwbl, sydd wedi'i drafod neu ei roi ar waith.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom, byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi ddarparu hyn. Os byddwn yn gwneud hyn, bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn cael ei arwain gan egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 ac unrhyw ddeddfwriaeth data berthnasol arall, bod unrhyw ddata y gofynnir amdano, sydd yn cael ei ddal a'i brosesu gennym ni yn berthnasol ac yn gymesur â'r rhesymau pam ein bod wedi gofyn amdano.



Mae rhagor o ganllawiau ar wybodaeth ychwanegol y gallai fod ei hangen arnom ar gael isod yn yr adran Rhagor o wybodaeth am ddatganiadau iechyd

Gallai darparu'r wybodaeth hon cyn gynted â phosibl ein hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fyddai'n arafu hynt eich cais.

Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol. Byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestriad parhaus. Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â'ch iechyd ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

### Rhagor o wybodaeth am ddatganiadau iechyd.

Wrth wneud datganiad i ni sy'n ymwneud ag iechyd meddwl a/neu gorfforol, fe allwn ofyn i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

1. Rhagor o wybodaeth am natur eich cyflwr iechyd.
2. Llythyr gan eich meddyg teulu neu glinigydd sy'n eich trin, neu eich caniatâd i ni gysylltu â nhw, er mwyn iddynt allu rhoi rhagor o wybodaeth i ni am eich iechyd. Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, gofynnir iddynt roi atebion i'r cwestiynau canlynol:
  - A yw'r cyflwr neu'r driniaeth yn effeithio ar allu'r unigolyn i [ymarfer yn ddiogel fel optometrydd/optegydd cyflenwi] [ymgymryd â hyfforddiant fel myfyriwr sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor Optegol Cyffredinol]
  - Os ydyw, ym mha ffordd?
  - Beth yw symptomau a thriniaeth yr unigolyn?
  - A yw'n gyflwr sy'n codi dro ar ôl tro/atglafychu?
  - Beth yw'r prognosis?
3. Yn ogystal ag unrhyw wybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani gennych chi neu eich meddyg, byddwn yn gofyn i chi am unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'ch cyflwr iechyd ac a ydych yn credu ei fod yn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer.
4. Yn dibynnu ar natur y cyflwr iechyd rydych chi'n ei ddatgan i ni, efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi edrych ar gymwyseddau clinigol perthnasol y Cyngor Optegol Cyffredinol ac ystyried a ydych chi'n credu y byddai eich cyflwr iechyd yn eich atal chi rhag bodloni'r holl gymwyseddau.
5. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am wybodaeth gan unrhyw berson neu sefydliad arall, gan gynnwys eich cyflogwr, os ydyn ni'n credu ei bod yn berthnasol i'r datganiad rydych chi wedi'i wneud.

## Datganiadau Troseddol, Rheoleiddiol a Disgyblu

Mae'n ofynnol hefyd i ymgeiswyr ddatgan y canlynol:

- A. Unrhyw euogfarnau (gan gynnwys euogfarn gan lys milwrol) neu rybuddiadau a gafwyd ar Ynysoedd Prydain am drosedd, neu euogfarn yn rhywle arall am drosedd a fyddai, pe bai'n cael ei chyflawni yng Nghymru neu Loegr, yn drosedd.
- B. A ydynt wedi derbyn cynnig amodol o dan adran 302 o Ddeddf Gweithdrefn Droseddol (Yr Alban) 1995 (cosb benodedig: cynnig amodol gan brocuradur ffisgal).
- C. A ydynt wedi cytuno i dalu cosb o dan adran 115A o Ddeddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 (cosb fel dewis arall yn lle erlyn).
- D. A ydynt wedi bod yn destun gorchymyn o dan Adran 246(2) neu (3) Deddf Trefniadaeth Droseddol (yr Alban) 1995 i'w rhyddhau'n ddiamod.
- E. A ydynt wedi bod yn destun unrhyw benderfyniad gan gorff yn y DU sy'n gyfrifol o dan unrhyw ddeddfiad am reoleiddio'r proffesiwn iechyd neu ofal cymdeithasol, i'r perwyl bod amhariad ar eu haddasrwydd i ymarfer fel aelod o'r proffesiwn hwnnw, neu os bydd corff rheoleiddio y tu allan i'r DU wedi gwneud penderfyniad i'r un perwyl; ac
- F. A ydynt ar hyn o bryd yn destun unrhyw ymchwiliad neu achos a allai arwain at unrhyw un o'r canlyniadau a ddisgrifir yn A-E uchod. Nid oes angen gwneud datganiad os oedd yr ymchwiliad neu'r achos yn erbyn rhywun ar wahân i'r ymgeisydd, neu os cwblhawyd y rhain drwy beidio â chymryd camau pellach yn erbyn yr ymgeisydd, neu os na all y rhain arwain at un o'r canlyniadau uchod.

Dylai ymgeiswyr cyrff corfforedig ddarparu'r datganiadau gofynnol mewn perthynas â'r cwmni sy'n ymgeisio a'i holl gyfarwyddwyr.

Gan ystyried pob un o'r meysydd uchod yn eu tro, rhoddir esboniad pellach isod:

### **A - D: Euogfarnau, Rybuddiadau, Cosbau a Gorchmynion Eraill**

Rhaid i chi ddatgan ar eich cais os ydych chi erioed wedi cael euogfarn neu rybuddiad ac, ar ben hynny, unrhyw ganlyniadau sy'n ymwneud â llysoedd yr Alban fel y disgrifir uchod, oni bai ei fod yn euogfarn neu'n rybuddiad gwarchoddedig. Gall hyn gynnwys unrhyw euogfarn gan Lys Milwrol.

Nid yw Deddf Adsefydlu Troseddwyd 1974 yn berthnasol i bobl sydd ar gofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol neu sy'n dymuno ymuno â'r gofrestr. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i chi roi gwybod i ni am unrhyw euogfarn neu rybuddiad rydych chi wedi'i gael, hyd yn oed os yw wedi'i 'ddisbyddu', oni bai ei fod yn rybuddiad neu'n euogfarn 'warchoddedig' fel y'i diffinnir yng Ngorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyd 1974 (Eithriadau) 1975.

Yn yr Alban, Gorchymyn Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Hepgoriadau ac Eithriadau) (Yr Alban) 2013 sy'n ymdrin â hyn.

Yng Ngogledd Iwerddon, Gorchymyn Adsefydlu Troseddwyr (Eithriadau) (Gogledd Iwerddon) 1979 sy'n ymdrin â hyn.

O dan y ddeddfwriaeth bresennol:

### **Rhybuddiad**

Mae rhybuddiad yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn rhybuddiad gwarchoddedig os:

- Oedd yr unigolyn dan 18 oed pan roddwyd y rhybuddiad.
- Roedd y troseddwr yn 18 oed neu'n hŷn pan roddwyd y rhybuddiad, ac mae chwe blynedd neu fwy wedi mynd heibio ers y dyddiad y'i rhoddwyd, oni bai ei fod wedi'i roi ar gyfer trosedd restredig (gweler isod)

Nid yw rhybuddiadau yn yr Alban yn cael eu gwarchod.

### **Euogfarn**

Mae euogfarn yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn euogfarn warchoddedig os:

- Oedd yr unigolyn a gafwyd yn euog o dan 18 oed adeg yr euogfarn, ac mae pum mlynedd a hanner neu fwy wedi mynd heibio ers dyddiad yr euogfarn, ar yr amod bod yr amodau eraill isod wedi'u bodloni.
- Roedd yr unigolyn a gafwyd yn euog yn 18 oed neu'n hŷn adeg yr euogfarn, ac mae 11 mlynedd neu fwy wedi mynd heibio ers dyddiad yr euogfarn, ar yr amod bod yr amodau eraill isod wedi'u bodloni.
- Yn y ddau achos, yr amodau ychwanegol yw nad oedd y drosedd y cafwyd yr unigolyn yn euog ohoni yn drosedd restredig (gweler isod) ac nad oedd y ddedfryd a roddwyd mewn perthynas â'r euogfarn yn ddedfryd o garchar, na'n ddedfryd o gadw dan glo.

Mae euogfarn yn yr Alban yn euogfarn warchoddedig os:

- Ydyw wedi'i disbyddu, ac
- Mae'n ymddangos yn y rhestr o droseddau sy'n ddarostyngedig i'r rheolau ac
  - Roedd y ddedfryd yn gerydd neu'n rhyddhad diamod a/neu
  - Roedd yr unigolyn dan 18 oed adeg yr euogfarn ac mae o leiaf saith mlynedd a chwe mis wedi mynd heibio ers yr euogfarn neu
  - Roedd yr unigolyn yn 18 oed neu'n hŷn ar ddyddiad yr euogfarn ac mae o leiaf 15 mlynedd wedi mynd heibio ers yr euogfarn.

Mae rhagor o ganllawiau ar euogfarnau gwarchoddedig yn yr Alban ar gael gan Disclosure Scotland: [Disclosure and criminal record checks - mygov.scot](https://www.disclosure.scot.nhs.uk/)

I gael rhagor o ganllawiau ar euogfarnau/rhybuddiadau gwarchoddedig yng Ngogledd Iwerddon, ewch i: [Information disclosed in a criminal record check | nidirect](#)

### Troseddau rhestredig

Os cawsoch chi euogfarn neu rybuddiad am drosedd restredig, ni fydd yn cael ei gwarchod.

Mae troseddau rhestredig yn y DU yn cynnwys troseddau treisgar a rhywiol difrifol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, sy'n arbennig o berthnasol i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed. Ni fydd y rhain byth yn cael eu hidlo o gofnod troseddol ac mae'r dolenni'n berthnasol i'r canlynol:

- Yng Nghymru a Lloegr, mae'r troseddau rhestredig i'w gweld ar [wefan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd \(DBS\)](#).
- Yn yr Alban, gellir dod o hyd i'r troseddau rhestredig ar y [Disclosure and criminal record check](#).
- Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r troseddau rhestredig i'w gweld ar [Access NI criminal record checks](#).

Rhaid datgelu rhybuddiad am 'drosedd restredig' bob amser i'r Cyngor Optegol Cyffredinol, oni bai fod yr unigolyn dan 18 oed pan roddwyd rhybuddiad yng Nghymru a Lloegr.

Rhaid datgelu euogfarn am 'drosedd restredig' bob amser i'r Cyngor Optegol Cyffredinol, beth bynnag yw oed yr unigolyn ar ddyddiad yr euogfarn.

Wrth wneud datganiad mewn perthynas ag euogfarn neu rybuddiad, rhowch gymaint o wybodaeth â phosibl. Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd angen i ni ofyn am wybodaeth ychwanegol, a allai arafu hynt eich cais.

Dylech barhau i ail-ddatgan ymchwiliad neu ganlyniad oni bai fod y Cyngor Optegol Cyffredinol yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig na ddylech ailddatgan y mater.

Os ydych, ar ôl darllen y canllawiau hyn, yn ansicr ynghylch a ddylech ddatgan euogfarn neu rybuddiad, efallai y byddwch am geisio cyngor cyfreithiol annibynnol cyn gwneud eich penderfyniad.

Os byddwch yn rhoi gwybod i ni am euogfarn, rhybuddiad neu ganlyniad arall, bydd y Cofrestrydd yn ystyried yr holl amgylchiadau cyn penderfynu a ddylid caniatáu eich cais ai peidio.

### E. Penderfyniad gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol

Rhaid i chi hefyd ddweud wrthym a oes penderfyniad wedi'i wneud yn eich erbyn gan gorff rheoleiddio iechyd neu ofal cymdeithasol yn y DU, i'r perwyl ei fod yn amharu ar eich addasrwydd i ymarfer fel aelod o'r proffesiwn hwnnw. Mae'r cyrff perthnasol fel a ganlyn:

- Y Cyngor Ceiropracteg Cyffredinol
- Y Cyngor Meddygol Cyffredinol
- Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol
- Y Cyngor Optegol Cyffredinol

- Y Cyngor Osteopathig Cyffredinol
- Y Cyngor Fferyllol Cyffredinol
- Y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal
- Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon
- Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Cymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon
- Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Social Work England

Hefyd, dylech ddweud wrthym a oes penderfyniad wedi'i wneud yn eich erbyn gan un o'r cyrff a ragflaenodd y rhai uchod (er enghraifft, y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol neu Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Prydain Fawr).

Hefyd, os ydych chi wedi cael penderfyniad sy'n ymwneud â'ch addasrwydd i ymarfer gan gorff rheoleiddio y tu allan i'r DU, rhaid i chi ddweud wrthym am hyn.

Wrth wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad gan gorff rheoleiddio, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys natur a dyddiad y canlyniad neu'r sancsiwn a osodwyd a'r amgylchiadau a arweiniodd at y penderfyniad. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fyddai'n arafu hynt eich cais. Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am y materion hyn, a'u bod yn dod i'n sylw yn nes ymlaen, efallai y byddwn yn penderfynu eich cyfeirio at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol. Byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestriad parhaus.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

## **F. Ymchwiliadau cyfredol gan yr heddlu neu gyflogwr**

Rhaid i chi ddatgan ar eich cais os ydych chi ar hyn o bryd:

- Yn destun ymchwiliad gan yr heddlu neu'r lluoedd arfog yn y DU am drosedd a allai arwain at euogfarn neu rybuddiad.
- Yn destun ymchwiliad gan heddlu y tu allan i'r DU, am drosedd a all arwain at euogfarn am fater sy'n drosedd yng Nghymru neu Loegr.
- Yn destun ymchwiliad gan sefydliad gofal sylfaenol yn y DU neu'r tu allan i'r DU.
- Yn destun sancsiwn gan sefydliad gofal sylfaenol y GIG (er enghraifft, Bwrdd Iechyd Lleol), naill ai fel cyflogai neu ddarparwr gwasanaeth, rhaid i chi roi gwybod i ni am hyn.
- Yn destun ymchwiliadau cyflogaeth neu gamau disgyblu os a dim ond os ydynt yn ymwneud â materion y mae angen eu datgelu o dan y Canllawiau hyn, fel ymchwiliadau troseddol posibl, neu faterion iechyd.

Wrth wneud datganiad mewn perthynas ag ymchwiliadau cyfredol, darparwch gymaint o wybodaeth â phosibl, gan gynnwys gwybodaeth am ddyddiadau a'r amgylchiadau a arweiniodd at yr ymchwiliad.

Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fyddai'n arafu hynt eich cais.

Os byddwn yn penderfynu eich cofrestru ar ôl ystyried amgylchiadau perthnasol, gan gynnwys natur a difrifoldeb yr honiadau, byddwn yn gofyn i chi roi gwybod i ni am ganlyniad yr ymchwiliad. Mae hyn er mwyn i ni allu ystyried a ddylid eich cyfeirio at broses addasrwydd i ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol. Byddant wedyn yn ystyried a oes angen ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad.

Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad neu ymchwiliad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

Dylech barhau i ail-ddatgan ymchwiliad neu ganlyniad oni bai fod y Cyngor Optegol Cyffredinol yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig na ddylech ailddatgan y mater.

Fel yn achos yr holl wybodaeth y gofynnwn amdani ac yr ydym yn ei dal amdanoch, bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn cael ei arwain gan egwyddorion Deddf Diogelu Data 2018 a deddfwriaeth data berthnasol arall, bod unrhyw ddata y gofynnir amdano, sydd yn cael ei ddal a'i brosesu gennym ni yn berthnasol ac yn gymesur â'r rhesymau pam ein bod wedi gofyn amdano.

### Rhagor o wybodaeth am faterion troseddol

Os byddwch yn gwneud datganiad i ni sy'n ymwneud â materion troseddol, byddwn fel arfer yn gofyn i chi ddarparu mwy o wybodaeth am natur yr ymchwiliadau hyn neu'r canlyniadau. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn i chi roi unrhyw dystysgrifau euogfarn neu rybuddiad i ni, gwiriadau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (neu'r rhai sy'n cyfateb iddynt), neu gopiâu o drawsgrifiadau'r llys. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am eich caniatâd i ofyn am wybodaeth amdanoch gan gyrrff ymchwilio, neu'n gofyn i chi ddarparu'r wybodaeth hon i ni. Efallai y byddwn hefyd yn gofyn am wybodaeth gan unrhyw unigolyn neu sefydliad arall os ydyn ni'n credu ei bod yn berthnasol i'r datganiad rydych chi wedi'i wneud.

Yn ogystal ag unrhyw wybodaeth rydym wedi gofyn amdani gennych chi neu gorff ymchwilio, byddwn yn gofyn i chi am unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud o ran eich datganiad ac a ydych yn credu ei fod yn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer.

## Adran 4: Y broses gwneud penderfyniadau

Bydd aelod o'r tîm Cofrestru yn sicrhau bod yr wybodaeth a roddwyd i ni mewn perthynas â'r datganiad yn cael ei rhoi gerbron y Cofrestrydd, a fydd yn ei hystyried o fewn pum diwrnod gwaith.



Bydd y wybodaeth a roddir i'r Cofrestrydd yn cynnwys:

- Manylion yr ymgeisydd neu'r cofrestrai (Enw, cyfeirnod).
- Math o gais (cofrestru, adfer neu gadw)
- Dyddiad derbyn.
- Crynodeb o'r holl wybodaeth a ddarparwyd gan yr ymgeisydd neu'r cofrestrai.
- Rhestr o'r holl ddogfennau a ddarparwyd gan yr ymgeisydd neu'r cofrestrai ac unrhyw drydydd partïon.
- Yr adran yn Neddf Optegwyr 1989 sy'n rhoi'r awdurdod i'r Cofrestrydd wneud penderfyniad ynghylch y cais.
- Lle bo'n berthnasol, manylion unrhyw ddatganiadau tebyg a dderbyniwyd yn y gorffennol a'r penderfyniad a wnaed yn yr achosion hyn.
- Argymhelliad yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarparwyd; a
- Chopïau o'r holl ohebiaeth a dogfennau a dderbyniwyd gan y cofrestrai/ymgeisydd a thrydydd partïon.

Bydd y Cofrestrydd yn ystyried pob cais unigol yn ofalus ac yn ystyried yr holl wybodaeth berthnasol. Bydd y Cofrestrydd yn penderfynu wedyn a ddylid caniatáu neu wrthod y cais. Bydd y Cofrestrydd yn rhoi rhesymau clir i'r ymgeisydd dros y penderfyniad a wnaed.

Wrth wneud penderfyniad, bydd y Cofrestrydd yn ystyried:

- Amgylchiadau'r datganiad fel a nodir gan yr ymgeisydd.
- Unrhyw wybodaeth bellach a ddarparwyd gan yr ymgeisydd, neu a geisiwyd gan y Cyngor Optegol Cyffredinol; a
- Phenderfyniadau a wnaed mewn achosion sydd ag amgylchiadau tebyg (lle bo hynny'n berthnasol).

Os yw'r datganiad yn cynnwys gwybodaeth am euogfarnau, bydd y Cofrestrydd yn dilyn Protocol y Cyngor Optegol Cyffredinol ar Ymdrin ag Euogfarnau Troseddol a Ddatgelir gan y Cofrestreion. Cyfeiriwch at y [Protocol ar ymdrin ag euogfarnau troseddol a ddatgelwyd gan gofrestreion](#)

Os na fydd y Cofrestrydd yn dilyn yr argymhelliad a nodir gan y tîm Cofrestru, byddant yn rhoi rhesymau clir dros wneud hynny, yn ogystal â'u penderfyniad mewn perthynas â'r cais. Bydd y Cofrestrydd yn cymryd pob cam rhesymol i sicrhau dull cyson o wneud penderfyniadau.

Yn gyffredinol, ni fydd y Cofrestrydd yn gwrthod cais ar y sail bod ymchwiliad yn mynd rhagddo; ond mae'n cadw'r hawl i wneud hynny yn dibynnu ar amgylchiadau datganiad unigol. Y rheswm am hyn yw mai prif ddyletswydd y Cyngor yw diogelu aelodau o'r cyhoedd.

Cofnodir holl benderfyniadau'r Cofrestrydd a byddwch yn cael y rhesymau dros y penderfyniad pan ddywedwn wrthyhych beth yw canlyniad ystyriaeth y Cofrestrydd.

Os bydd y Cofrestrydd yn caniatáu cais a daw i'n sylw'n ddiweddarach y dylid bod wedi dod i benderfyniad gwahanol (er enghraifft, mae ymchwiliad wedi dod i gasgliad gyda chanlyniad a allai effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer), bydd y Cofrestrydd yn cyfeirio'r mater at dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol. Bydd yr ymgeisydd neu'r cofrestrai yn cael gwybod am hyn yn ysgrifenedig. I gael rhagor o wybodaeth am weithdrefn y tîm Addasrwydd i Ymarfer, gweler y [dudalen Codi pryderon am optegydd](#) ar ein gwefan.

Pan fyddwn yn rhoi gwybod i chi am ganlyniad ystyriaeth y Cofrestrydd, efallai y byddwn yn dweud wrthyhych nad oes angen i chi ddatgan y mater i ni eto. Efallai y byddwn hefyd yn eich cyngori ar unrhyw gamau y bydd angen i chi eu cymryd yn y dyfodol o ran y datganiad hwn a'ch cofrestrriad. Os na fyddwch yn dilyn y cyngor hwn, gallai hyn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer yn y dyfodol. Os ydych chi wedi datgan eich bod yn destun ymchwiliad ar hyn o bryd, byddwn yn gofyn i chi roi gwybod i ni am ganlyniad yr ymchwiliad cyn gynted ag y byddwch yn ei wybod.

Gwneir penderfyniad y Cofrestrydd yn breifat ac ni chyhoeddir y rhesymau dros y penderfyniad. Fodd bynnag, bydd achlysuron pan fydd ystyriaeth y Cofrestrydd ynghylch cais yn dod yn wybodaeth gyhoeddus. Os bydd hyn yn digwydd, bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn rhyddhau gwybodaeth yn unol â'n polisi datgelu ac yn unol â'r gyfraith er mwyn cynnal hyder y cyhoedd yn ein gweithgareddau rheoleiddio.

## Adran 5: Methu â gwneud datganiad

Os na fyddwch yn rhoi gwybod i ni am fater a ddaw i'n sylw yn ddiweddarach, bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn ystyried eich diffyg datganiad yn ogystal â'r mater y gwnaethoch fethu â'i ddatgan, wrth benderfynu pa gamau i'w cymryd yn eich erbyn. Efallai y cewch eich cyfeirio at Dîm Addasrwydd i Ymarfer y Cyngor Optegol Cyffredinol; byddant wedyn yn ystyried a oes angen i ni ymchwilio ymhellach a chymryd camau a allai effeithio ar eich cofrestrriad parhaus.

Mae'r materion **nad oes** angen i ni gael gwybod amdanynt yn cynnwys:

- Troseddau traffig ffyrdd lle rydych wedi derbyn hysbysiad cosb benodedig ond **heb** gael eich dyfarnu'n euog o drosedd (Fodd bynnag, rhaid i chi ddatgan unrhyw euogfarn am drosedd traffig ffyrdd).
- Gorchmynion Unioni Cymunedol i Oedolion neu orchmynion rhwymo.
- Cael eich datgan yn fethdalwr. Dim ond os gall amgylchiadau'r methdaliad effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer y dylid datgan hyn; ac
- Os ydych chi'n destun hawliad esgeulustod meddygol. Rydym yn cydnabod y gallai claf fod wedi gwneud hawliad yn eich erbyn mewn perthynas ag esgeulustod clinigol. Nid oes angen i chi ddweud wrthym am hyn oni bai y gallai amgylchiadau'r hawliad effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer.



Os ydych yn dal yn ansicr ynghylch a ddylech wneud datganiad mewn perthynas â phenderfyniad ar ôl darllen y canllawiau hyn, dylech wneud y datganiad. Efallai y byddwch hefyd yn dymuno siarad â'ch cyflogwr neu gorff proffesiynol, neu gael cyngor cyfreithiol eich hun, cyn penderfynu a ydych am wneud datganiad ai peidio.

## Adran 6: Datganiadau a wnaed y tu allan i'r cyfnod cadw

Os ydych wedi cofrestru fel myfyriwr ar hyn o bryd, wedi cymhwyso'n llawn neu'n gorff corfforedig, a'ch bod yn teimlo eich bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwneud datganiad, sydd wedi digwydd y tu allan i'r cyfnod cadw, gwnewch y datganiad hwnnw cyn gynted â phosibl a pheidiwch ag aros tan y cyfnod cadw i'w ddatgan. Dylech gyflwyno'r datganiad yn yr un ffordd ag a nodir uchod.

[Gwneud datganiad | Cyngor Optegol Cyffredinol](#)

## Adran 7: Ymarfer tra rydych heb gofrestru

Os ydych yn datgan i ni eich bod wedi ymarfer tra nad ydych wedi cofrestru, byddwn fel arfer yn gofyn i chi ddarparu rhagor o wybodaeth, gan gynnwys enw a rhif Cyngor Optegol Cyffredinol unrhyw un a oruchwyliodd yn eich practis clinigol. Efallai y byddwn wedyn yn gofyn am wybodaeth berthnasol bellach gan eich goruchwyliwr a/neu unrhyw unigolyn neu sefydliad arall os ydyn ni'n credu ei bod yn berthnasol i'r datganiad rydych chi wedi'i wneud.

Yn ogystal ag unrhyw wybodaeth yr ydym wedi gofyn amdani gennych chi neu unrhyw gorff arall, byddwn yn gofyn i chi am unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud mewn perthynas â'ch datganiad ac a ydych yn credu ei fod yn effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer.

Byddwn yn cael cyngor cyfreithiol os yw'n ymddangos eich bod wedi ymarfer yn torri'r cyfyngiadau yn Rhan 4 y Ddeddf Optegwyr.

## Adran 8: Sut i apelio yn erbyn penderfyniad

Fel y disgrifir uchod, bydd penderfyniad y Cofrestrydd yn cael ei roi i chi'n ysgrifenedig gyda'r rhesymau. Hefyd yn y llythyr ceir gwybodaeth am sut i apelio yn erbyn penderfyniad y Cofrestrydd.

Dan delerau Paragraff 2 Atodlen 1A Deddf Optegwyr 1989, mae penderfyniad gennym ni i beidio â'ch cofrestru yn benderfyniad y gellir apelio yn ei erbyn. Felly, mae'n agored i chi apelio i'r Pwyllgor Apeliadau Cofrestru yn erbyn y penderfyniad hwn i beidio â derbyn eich enw neu gadw eich enw ar y gofrestr. Pe byddech yn dymuno gwneud apêl o'r fath, rhaid i chi roi hysbysiad o apêl yn unol â Pharagraff 4 o atodlen 1A.

Dan delerau Paragraff 4(3) yr atodlen honno, mae gennych 28 diwrnod o ddyddiad y llythyr sy'n rhoi gwybod i chi am benderfyniad y Cofrestrydd i roi gwybod i ni, yn

ysgrifenedig, pe byddech yn dymuno mynd ar drywydd apêl. Os na fyddwch yn dweud wrthym eich bod yn dymuno apelio o fewn 28 diwrnod, ni fyddwch yn gallu apelio yn ddiweddarach.

Ar ôl i ni dderbyn hysbysiad eich bod yn dymuno apelio, byddwn yn cysylltu â chi i gadarnhau ein bod wedi derbyn eich gohebiaeth a beth fydd y camau nesaf.

P'un ai a ydych chi'n apelio ai peidio, gallwch wneud cais arall am gofrestru/cadw/adfer yn y dyfodol. Fodd bynnag, os byddwch yn gwneud hyn, dylech ystyried y rhesymau pam y gwrthododd y Cofrestrydd eich cais a beth, os o gwbl, y gallwch ei wneud i fodloni'r Cofrestrydd eich bod yn unigolyn addas i fod ar gofrestr y Cyngor Optegol Cyffredinol.

## Adran 9: Safonau i fyfyrwyr, cofrestreion sydd wedi cymhwyso'n llawn, a busnesau

Yn ogystal â'r datganiadau a ddisgrifir uchod y mae'n ofynnol i chi eu gwneud, rhaid i unrhyw ymgeisydd llwyddiannus gydymffurfio â'r [Safonau Ymarfer ar gyfer optometryddion ac optegwyr cyflenwi](#), [Safonau ar gyfer myfyrwyr optegol](#) neu [Safonau ar gyfer busnesau optegol](#).

Mae'r Safonau yn disgrifio sut mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn disgwyl i'r rheini sydd ar ein cofrestr ymddwyn, er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion a'r cyhoedd. Dylech wneud eich cais gan gyfeirio at y Safonau a datgan unrhyw faterion i'r Cyngor Optegol Cyffredinol ar eich cais a allai effeithio ar eich addasrwydd i ymarfer. Gall y rhain gynnwys penderfyniad gwahardd cyfredol neu flaenorol a wnaed gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, Access NI neu Disclosure Scotland. Bydd darparu cymaint o wybodaeth â phosibl cyn gynted â phosibl yn helpu i'n hatal rhag gorfod gofyn i chi am ragor o wybodaeth, a fydd yn arafu hynt eich cais.

## Adran 10: Rhagor o wybodaeth


Gall y dogfennau canlynol eich helpu pan fyddwch yn gwneud cais sy'n cynnwys datganiad:

- [Fframwaith Safonau'r Cyngor Optegol Cyffredinol](#):
  - [Safonau Ymarfer ar gyfer Optometryddion ac Optegwyr Cyflenwi](#)
  - [Safonau ar gyfer myfyrwyr optegol](#)
  - [Safonau ar gyfer busnesau optegol](#)
- [Deddf Optegwyr 1989 a rheolau cysylltiedig](#);
- [Y cymwyseddau ar gyfer optometryddion ac optegwyr cyflenwi](#); a'r
- [Protocol ymarfer anghyfreithlon](#)

Mae'r canllawiau hyn yn gywir ar y dyddiad a geir ar y dudalen gyntaf. Bydd y Cyngor Optegol Cyffredinol yn adolygu ac yn diweddarau'r canllawiau hyn o bryd i'w gilydd.

# Atodiad 1

Siart Lif yn dangos y broses o wneud penderfyniadau a chanlyniadau posibl ar gyfer ymgeiswyr sydd eisiau cofrestru ac ymgeiswyr sydd eisiau adfer



## Atodiad 2

Siart Lif yn dangos y broses gwneud penderfyniadau a chanlyniadau posibl yn ystod y cyfnod cadw

